Ein Cyf / Our Ref: **WLGA / SENCOM Service / 190619**

Dyddiad / Date: 19 Mehefin 2019
Gofynnwch am / Please ask for: David Hopkins
Llinell uniongyrchol / Direct line: 029 2046 8610
Ebost / Email: David.hopkins@wlga.gov.uk

CLILC • WLGA

Annwyl Rhiant / Gofalwr

Adolygiad Annibynnol o'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrau a Chyfathrebu (SENCOM)

Ysgrifennaf o'r Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i'ch hysbysu am ein penderfyniad i gomisiynu a chefnogi adolygiad annibynnol o'r SENCOM (Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrau a Chyfathrebu)**.** Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan **Mark Geraghty**, Ymgynghorydd annibynnol SEND sydd â phrofiad sylweddol o weithio yn y sectorau addysg/ADY/AAA.

Mae SENCOM yn wasanaeth ar y cyd sy'n cynnwys pump awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru; **Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen.**

Mae SENCOM wedi bod yn darparu ystod eang o wasanaethau hynod arbenigol ac ymyrraeth i deuluoedd ac ysgolion yn ystod cyfnod pan mae dyheadau Llywodraeth Cymru i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn ysgolion, gyda lefelau a mathau priodol o gefnogaeth, wedi bod yn ganolbwynt ei ddeddfwriaeth newydd arfaethedig.

Mae CLILC yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac yn yr achos hwn yn cefnogi'r pump awdurdod partner gyda'r gwaith pwysig o werthuso gwaith SENCOM. Bydd yr adolygiad yn archwilio pa mor effeithiol mae SENCOM yn:

- diwallu anghenion addysgu, dysgu a chyfathrebu arbenigol plant a phobl ifanc mae'n rhoi cymorth iddynt.
- cefnogi teuluoedd ac ysgolion i ddiwallu dyheadau plant a phobl ifanc.
- paratoi pobl ifanc gydag anghenion synhwyraidd a chyfathrebu i fod yn oedolion gwerthfawr a werthfawrogir yn eu cymunedau lleol.

Mae'n hanfodol ein bod yn casglu barn rhanddeiliaid ar sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu o'u safbwynt hwy, a gwneir hynny trwy alluogi pawb i lenwi holiadur (ynghlwm â chydfarwyddiadu ar sut i'w gwblhau) ac, yn y rhan fwyaf o achosion, cael cyfle i fynychu cyfarfod gyda Mark Geraghty.

Bydd y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gyflwynir yn cael eu coladu er mwyn llywio adroddiad terfynol sy'n cynnwys canfyddiadau ac argymhellion annibynnol yn ôl i'r awdurdodau partner.

Dr Chris Llewelyn
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru
wlga.wales

@WelshLGA

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

Mae CLILC ac awdurdodau lleol partner yn credu bod cymdeithas ofalgar yn cael ei nodi drwy sut yr ydym yn trin plant sydd angen ein cefnogaeth fwyaf. Dylai pob plentyn, beth bynnag eu cefndir a pha bynnag heriau a wynebir, gael mynediad i'r addysg orau yn y dosbarth sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd yn y byd modern.

Diolch i waith caled holl athrawon a staff cefnogi, mae safonau yn codi ac rydym yn parhau i annog ysgolion i ganolbwyntio ar gyflawniadau ***pob*** disgybl. Mae plant yn cael un cynnig gyda'u haddysg, maent yn haeddu'r gorau.

Mae'r archwiliad diduedd hwn yn gyfle amserol i edrych eto ar beth mae SENCOM wedi'i gyflawni hyd yma ac ystyried lle gallwn wella'r profiadau dysgu ac addysgu i blant a phobl ifanc ag anghenion synhwyraidd a chyfathrebu yn ein hysgolion. Bydd hefyd yn ein galluogi i adlewyrchu ar sut y byddwn yn ceisio diogelu'r gwasanaethau hynod arbenigol hyn ar gyfer y dyfodol.

Bydd y broses adolygiad annibynnol yn dechrau yn fuan ym mis Mehefin 2019 a bwriedir cwblhau a chyhoeddi'r canfyddiadau erbyn dechrau Gorffennaf 2019. Bydd yna ddiweddariadau pellach maes o law, wrth i'r adolygiad wneud cynnydd a llunio prif farn a syniadau gan bawb dan sylw.

Yn gywir / Yours sincerely

Pennaeth Addysg, Dysgu a Diwylliant Dros Dro

Ar ran Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cyngor Awdurdodau Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.